| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 26 Medi 2018 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Hugh Evans - Arweinydd |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio |
| **Teitl:** | **Adroddiad Gwella Blynyddol 2017-18** |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r asesiad blynyddol o ragolygon y Cyngor ar gyfer gwella, a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**
Darparu gwybodaeth i'r Aelodau am Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor. Gweler Atodiad 1

**3. Beth yw'r Argymhellion?**
Dylai'r Cyngor nodi cynnwys yr adroddiad sydd ynghlwm a'r cynigion ar gyfer gwella sydd ynddo.

**4. Manylion yr Adroddiad**
O dan y Mesur Llywodraeth Leol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu cynnydd y Cyngor yn flynyddol tuag at gyflawni ei amcanion a'i ragolygon er mwyn parhau i wella yn ystod y flwyddyn i ddod.

Ar gyfer y flwyddyn 2017-18, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad: *Mae'r Cyngor yn parhau i fodloni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus, ac:*

*Ar ôl gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni ei weledigaeth gyfredol, mae'r Cyngor yn datblygu cynllun wedi ei ddiweddaru i ddisgrifio ei weledigaeth a'i brif amcanion ar gyfer y dyfodol.*

Nid yw'r adroddiad yn gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol, ond mae'n nodi rhai Cynigion ar gyfer Gwelliant, sydd wedi'u nodi isod. Yn erbyn pob un, rwyf wedi cynnwys y cynnydd mae'r Cyngor wedi'i wneud hyd yma o ran ymateb i'r rhain.

| | Cynnig ar gyfer Gwella | Cynnydd |
|---|---|---|
| P1 | **Gellid cryfhau trefniadau llywodraethu'r Cyngor** drwy fonitro effaith pob newid arwyddocaol i wasanaethau yn gyson ac amserol. | • Mae Fersiwn 2 yr Asesiad Effaith Lles yn cynnwys dadansoddiad wedi'i gryfhau o Effeithiau Cydraddoldeb.<br>• Bydd Pwyllgorau Craffu yn cael eu diweddaru gyda'r Camau Gweithredu a gytunwyd yn yr Heriau Gwasanaeth.<br>• Mae Byrddau Rhaglen Cynllun Corfforaethol yn chwarae rhan ymarferol wrth fonitro effaith newidiadau a wnaed i wasanaethau fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol. |

| | | |
|---|---|---|
| P2 | **Cryfhau trefniadau ariannol drwy:**<br>• Ddatblygu polisi cynhyrchu incwm / codi tâl<br>• Rhoi sgôr risg ffurfiol i arbedion yn ôl pa mor gyraeddadwy ydynt a nodi camau lliniaru cynaliadwy i'r rheiny a ystyrir yn rhai risg uchel | • Cymeradwywyd y polisi incwm gan y Cabinet ac mae'n rhan o broses y gyllideb;<br>• Ymgorfforwyd sgôr risg arbedion i broses y gyllideb ar gyfer 2018/19. |
| P3 | **Cryfhau trefniadau rheoli pobl drwy:**<br>• Ddatblygu dull i sicrhau bod gweithwyr â mynediad cyfyngedig i'r fewnrwyd yn gallu cael mynediad i wybodaeth AD berthnasol.<br>• Sicrhau bod amrywiadau ac anghysonderau o ran gweithredu polisïau AD yn cael eu hosgoi ar gyfer gweithwyr y rheng flaen nad ydynt yn seiliedig yn y swyddfa | • Mae'r holl wybodaeth AD ar gael ar wefan CSDd bellach i alluogi mynediad cyffredinol.<br>• Mae gwybodaeth AD ar gael nawr i reolwyr a goruchwylwyr ei defnyddio mewn 'trafodaethau blwch offer' rheng flaen. |
| P4 | **Cryfhau trefniadau rheoli Asedau drwy:**<br>• Sicrhau bod camau gweithredu sydd eisoes ar y gweill i foderneiddio trefniadau rheoli asedau corfforaethol yn hyrwyddo defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o bortffolio tir ac eiddo'r Cyngor ac atgyfnerthu ei gyfraniad fel adnodd strategol. | • Mae grŵp ffurfiol rheoli Asedau wedi'i sefydlu ac mae Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol wedi'i datblygu |
| P5 | **Cryfhau trefniadau TGCh drwy:**<br>• Sicrhau bod y Cyngor yn ymgynghori â'r gwasanaeth TGCh o ran pob pryniant technoleg ar gyfer pryniannau strategol a phryniannau fel mater o drefn;<br>• Sicrhau bod arbenigedd TGCh digonol wedi'i gynnwys mewn achosion o gaffael a gweithredu ar raddfa fwy neu â risg uwch. | • Mae'r Partneriaid Busnes TGCh yn ymwneud â phob datblygiad nawr o gam cynnar.Mae'n ofyniad bellach i bob pryniant TGCh gael ei gymeradwyo gan y Rheolwr Trawsnewid Busnes a TGCh. |
| P6 | **Cryfhau trefniadau Rheoli Gwybodaeth drwy:**<br>• Sicrhau bod trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn bodloni gofynion safonau rhyngwladol a'u bod yn cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o'r Cyngor i gyd;<br>• Estyn cylch gorchwyl y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth i gynnwys anghenion gwybodaeth fusnes yn ogystal â'r gofynion ar gyfer cydymffurfio;<br>• Datblygu Strategaeth Wybodaeth, sy'n gysylltiedig â strategaethau adnoddau eraill, i ffurfio defnydd gwybodaeth a sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch pan a lle mae ei hangen;<br>• Datblygu cynlluniau gweithredu tymor hwy ar gyfer System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig i symud y | • Mae'r IGG nawr yn cynnwys cynrychiolaeth lawn o bob rhan o'r Cyngor ac mae wedi derbyn diffiniad ehangach ei rôl.Fodd bynnag, y gwaith sy'n rhan o baratoi ar gyfer Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yw blaenoriaeth y grŵp ar hyn o bryd, sy'n golygu bod gwaith ar strategaeth newydd wedi'i ohirio tan 2019.<br>• Mae gwaith System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig wedi cadarnhau adnoddau ariannol tan ddiwedd y prosiect. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyngor tuag at ei nod o fod ag amgylchedd swyddfa di-bapur. | |

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen penderfyniad, ond mae adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor yn rhan bwysig o ddeall ein cynnydd tuag at gyflawni ein Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Amherthnasol

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?**

Mae swyddogion wedi adolygu'r adroddiad er cywirdeb cyn ei gyhoeddi.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r adroddiad cadarnhaol hwn yn darparu sicrwydd bod trefniadau rheolaeth ariannol yn gadarn ac nid oes argymhellion ffurfiol wedi'u gwneud ac mae prosesau ar waith i sicrhau bod pryderon a gaiff eu codi yn cael ystyriaeth briodol gan y Cyngor.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Byddai risg i'r Cyngor os na weithredir y cynigion ar gyfer gwella a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen penderfyniad.